O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L
C Y M R U

# 2016 Rhif 860 (Cy. 217)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A494 (Y Bala, Gwynedd) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2016

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *25 Awst 2016* |
| *Yn dod i rym* | *4 Medi 2016* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Dolgellau – Man i'r De o Benbedw (yr A494) ("y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd holl draffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd bod Triathlon y Bala yn cael ei gynnal ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 16A o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Digwyddiadau Arbennig) 1994, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Dehongli a Chychwyn**

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 4 Medi 2016. Ei enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A494 (Y Bala, Gwynedd) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2016.

**2.** —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" (*"exempted vehicle")* yw:

(i) unrhyw gerbyd gwasanaethau cyhoeddus;

(ii) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion yr heddlu;

(iii) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddiben y gwasanaeth tân neu'r gwasanaeth ambiwlans;

(iv) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio mewn cysylltiad â gwaith ar y ffordd neu oleuadau neu arwyddion traffig neu waith brys i unrhyw garthffos neu i unrhyw brif bibell neu gyfarpar ar gyfer cyflenwi nwy, dŵr neu drydan, neu gyfarpar telathrebu yn y darn o'r ffordd o dan sylw, neu mewn unrhyw dir cyfagos;